# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD Medi 3ydd 2019

Neuadd Rhydlewis 7.30p.m.

**Yn bresennol**
Cyng Maldwyn Lewis
Cyng Teifi Evans
Cyng Mark Davies
Cyng Roger Davies
Cyng Ceri Jones
Cyng Julie Davies
Cyng Owenna Davies
Cyng Emyr Jones

**Ymddiheuriadau** Cyng Llŷr Evans

**Cofnodion yn absenoldeb y clerc – Cyng Owenna Davies yn absenoldeb clerc**

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan bwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Cyng. Llyr Evans | | |
| **2. Datgan diddordeb** | Neb | | |
| **3. Cadarnhau cofnodion** | Cadarnhau'r cofndion:<br>Cynnig: Cyng Julie Davies Eilio: Cyng Teifi Evans | | |
| **4. Materion yn codi o'r cofnodion** | Ffôn Maesllyn yn gweithio ar hyn o bryd.<br>Gwahodd y cyn gynghorydd Eirian James i'r cyfarfod nesaf yn Ffostrasol.<br>Angen edrych eto ar yr hen ebyst i chwilio am unrhyw geisiadau am arian<br>Arwyddion Ffostrasol a Maesllyn heb eu gosod yn ei lle eto. | MD | |
| **5. Materion y Cynghorydd Sir** | Mis tawel – dim newyddion | | |
| **6. Gohebiaeth** | • Un Llais Cymru<br>Dewis helaeth o gyrsiau ar wefan Un Llais Cymru. Bwriedir casglu'r wybodaeth ar ffurf tabl I'w gyflwyno I'r Cynghorwyr<br><br>• St Michael's, Troedyraur<br>Llythr yn esbonio na dderbyniwyd cydnabyddiaeth i'w cais am gefnogaeth ariannol yn 2018 – 19.<br>Bwriedir danfon ffurflen gais ar gyfer y flwyddyn gyfredol | MD / Clerc<br><br>MD / Clerc | |
| **7. Ariannol** | Wedi talu D. J. Davies £292.50 am gost y gadwyn<br><br>Angen gwirio a oes anfoneb wedi dod oddi wrth y cyfieithydd. | | |
| **8. Cynllunio** | • A190418 Wyvern Pool Fishery Brongest | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llythyr wedi ei dderbyn yn gwrthwynebu'r mater uchod. Nid yw'n bosib trafod y mater ym mhellach heno gan na dderbyniwyd manylion priodol am y cais. | | |
| **9. Materion ardal** | Cynghorwyr yn cytuno a'r egwyddor o greu rhaglen ar gyfer addurno ein pentrefu.<br><br>Clustnodwyd £450 fel amcan bris yn y gyllideb tuag at y gost o brynnu bocsys blodau ac addurniadau Nadolig.<br><br>Gofid yng nghymuned Ffostrasol am y car gwyn a welwyd yn teithio nifer o weithiau yn ôl a mlaen trwy'r pentref yn ddiweddar. Galwyd yr heddlu i ddelio a'r mater.<br><br>Angen i bob un greu rhestr o anghenion parthed cynnal a chadw coed a chloddiau. | | |
| 10. Cadwyn y Cadeirydd | Wedi cwblhau'r dasg. | | |
| **11. Materion Awdit** | Grwp tasg a gorffen wedi cynnal trafodaethau cyson gyda'r Cwmisiwn Awdit.<br>Brys yn awr I gwblhau'r dasg. Cyfarfod I gwblhau'r paratoadau yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn Medi 16. | MD /ML/ OD | |
| 12. Blychau Ffon | Wedi trafod yn eitem 4 | | |
| 13. Ffurflen Grant | Angen sicrau fod pawb yn derbyn copi eto o'r ffurflen er mwyn ei basio yn y cyfarfod nesaf. | OD | |
| 14. Ffurflenni Banc | Angen I'r Clerc newydd fod mewn lle cyn cwblhau'r ffurflenni banc | | |
| 15. Penodiad Clerc Newydd | Trafodwyd hysbyseb.<br><br>Hysbysebu'n eang.<br><br>Panel penodi A – Cadeirydd, Cyng Mark Davies<br>Cyng. Llyr Evans<br>Cyng Teifi Evans<br>Cyng Julie Davies<br>Cyng Roger Davies .<br>Panel penodi B - Is Gadeirydd – Cyng Emyr Jones<br>Cyng Maldwyn Lewis<br>Cyng Ceri Jones<br>Cyng Owenna Davies, | Pawb | |
| **16. Ethol cynghorydd newydd** | Trafod yn y cyfarfod nesaf. | | |
| 17. Cynllun Ariannol 2019-2020 | Angen danfon copi at y cynghorwyr. | OD | |
| **18. Eitemau i'w trafod yng ngyfarfod Hydref 2019 – Neuadd Ffostrasol** | Materion cyllidol<br>Ffurflenni banc<br>Cwblhau'r awdit.<br>Materion ardal<br>Penodi clerc<br>Cynghorydd newydd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1af o Hydref,** | | | |

Llofnod (Cadeirydd) ______________________________

Llofnod (Is-Gadeirydd) ______________________________